Yn bresennol:

- Mark Drakeford AC, y Prif Weinidog (Cadeirydd)
- Vaughan Gething AC
- Lesley Griffiths AC
- Julie James AC
- Eluned Morgan AC
- Ken Skates AC
- Jeremy Miles AC

- Jane Hutt AC
- Julie Morgan AC
- Lee Waters AC

- Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol
- Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog
- Carys Evans, Prif Ysgrifennydd Preifat y Prif Weinidog
- Peter Greening, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Jo Salway, Dirprwy Gyfarwyddwr Swyddfa'r Cabinet
- Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
- Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
- Rachel Maycock, Cynghorydd Arbennig
- David Davies, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Piers Bisson, Cyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
- Liz Lalley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd – Parodrwydd
- Simon Brindle, Cyfarwyddwr Trefniadau Pontio Ewropeaidd – Polisi

Ymddiheuriadau:

- Rebecca Evans AC
- Kirsty Williams AC

- Hannah Blythyn AC
- Dafydd Elis-Thomas AC

Eitem 1: Eitemau'r Prif Weinidog

1.1 Croesawodd y Prif Weinidog y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion i'w gyfarfod cyntaf yn y Cabinet a nododd y byddai'n cyflwyno eitemau o sylwedd yn y Gymraeg i adlewyrchu'r ffaith bod Cymru yn wlad ddwyieithog.

1.2 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Gweinidogion y byddai'n ysgrifennu atynt cyn hir i amlinellu'r ffordd y byddai busnes y Cabinet yn cael ei gynnal. O ystyried arwyddocâd Brexit, byddai'n eitem bwysig ym mhob cyfarfod.

1.3 Byddai'r Cabinet yn parhau i gyfarfod yn wythnosol.

Cynghorwyr Arbennig

1.4 Cafodd y Gweinidogion wybod bod dau gynghorydd arbennig newydd, David Davies a Dan Butler, yn y broses o ymuno â'r Llywodraeth yr wythnos honno i gymryd lle'r pedwar cynghorydd a oedd wedi rhoi'r gorau i'w swyddi pan ymadawodd y cyn-Brif Weinidog. Roedd cynlluniau mewn llaw i lenwi'r swyddi gwag oedd yn weddill drwy gynnal ymarfer recriwtio, y byddai'r Gweinidogion perthnasol yn rhan ohono. Yn y cyfamser, byddai'r cynghorwyr arbennig presennol yn cael eu neilltuo i ymgymryd â'r busnes ag iddo'r brys mwyaf.

Cod y Gweinidogion

1.5 Nodwyd y bydd y Prif Weinidog yn ysgrifennu at bob Gweinidog a Dirprwy Weinidog gyda chopi o God y Gweinidogion.

Cysylltiadau rhynglywodraethol a rhyngseneddol

1.6 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet y byddai'n siarad â Phrif Weinidog y DU yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw ac roedd yn bwriadu cyfarfod ag Arweinydd yr Wrthblaid yn Llundain y diwrnod canlynol. Ddydd Mercher, byddai'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol yn mynd i Gyfarfod Llawn o'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion, a gynhelir yn Llundain hefyd.

Eitem 2: Brexit – Pwyso a Mesur

2.1 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at gefndir y papur ar Brexit, a gynlluniwyd i lywio trafodaeth y Cabinet a gwahoddodd Piers Bisson, Cyfarwyddwr y Trefniadau Pontio Ewropeaidd, i roi trosolwg o'r sefyllfa bresennol a'r broses wleidyddol.

2.2 Adroddwyd ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth y DU mewn sefyllfa anodd, gyda Phrif Weinidog y DU yn ceisio sicrwydd pellach o Frwsel ynglŷn â'r cynllun wrth gefn ('backstop') ar gyfer Gogledd Iwerddon ac arweinwyr yr UE yn ei gwneud yn gwbl glir na fyddai rhagor o gyfle i ail-negodi'r Cytundeb Ymadael drafft.

2.3 Roedd Prif Weinidog y DU, y prynhawn hwnnw, wedi rhoi gwybod i'r Senedd y byddai'r ddadl ar y cytundeb drafft yn ailgychwyn yn ystod yr wythnos yn cychwyn 7 Ionawr 2019 a disgwylid i'r bleidlais gael ei chynnal yr wythnos ganlynol. Pe byddai'r Prif Weinidog yn llwyddo i gael cymeradwyaeth y Senedd, byddai rhaid sicrhau bod Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) yn mynd drwy ddau Dŷ'r Senedd cyn diwedd mis Mawrth.

2.4 Byddai llwybr y Bil drwy'r Senedd yn cael ei gyflymu, ond byddai'n dal i fod yn ddarostyngedig i ddiwygiadau gan Aelodau'r ddau Dŷ. Gall yr UE gytuno i ymestyn dyddiad Erthygl 50 y tu hwnt i 29 Mawrth, ond byddai terfyn amser ar yr estyniad oherwydd bod etholiadau i Senedd Ewrop ym mis Mai.

2.5 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a heb ddatgan hynny ar goedd, mae Llywodraeth y DU wedi symud tuag at farn gyson Llywodraeth Cymru mewn perthynas â nifer o feysydd fel yr adlewyrchwyd yn y Papur Gwyn 'Diogelu Dyfodol Cymru'. Fodd bynnag, nid oedd Llywodraeth y DU wedi symud yn ddigon pell ac roedd y datganiad gwleidyddol ar ddyfodol perthynas y DU / yr UE yn annelwig ac yn gwbl annigonol.

2.6 Gallai barn Llywodraeth y DU am y ffordd ymlaen ddod yn fwy eglur yng Nghyfarfod Llawn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ddydd Mercher, ond o ystyried y datblygiadau diweddar, mae'r perygl o'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb wedi cynyddu'n sylweddol.

2.7 Cytunodd y Cabinet y byddai'n gwbl hanfodol sefydlu Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar fasnach.

2.8 Trafododd y Gweinidogion y dyfarniad diweddar gan Lys Cyfiawnder Ewrop y gallai'r DU dynnu'n ôl o Erthygl 50 heb ganiatâd y 27 o aelod-wladwriaethau eraill.

2.9 Cytunodd y Cabinet y byddai angen adroddiad cynnydd arall ar ôl y Nadolig.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn
Rhagfyr 2018